**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 15-01(p5)**

**DYDDIAD:** Dydd Gwener 16$^{eg}$ Tachwedd 2001.
**ADRODDIAD:** Comisiynau Ffilm a'u rôl yn yr economi leol.

**AWDUR:**Comisiynydd Ffilm Gogledd Cymru

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Gwelwyd adfywiad cyffrous iawn yn niwydiant cynhyrchu ffilm a chyfryngau Prydain yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae llwyddiant aruthrol ffilmiau fel "Four Weddings and a Funeral", "Notting Hill" a "The Full Monty" ynghyd â'r ffilmiau Cymreig a enwebwyd ar gyfer Osgar, "Hedd Wyn" a "Solomon a Gaynor" wedi cyfrannu tuag at hyn. Mae Prydain yn dangos i'r byd bod yr holl dalentau creadigol a thechnegol sydd gennym yn ein galluogi i gynhyrchu ffilmiau o'r ansawdd gorau posib.

1.2 Ac nid ffilmiau Prydeinig yn unig sy'n cael eu gwneud yn llwyddiannus ym Mhrydain. Mae rhai o ffilmiau mawr Hollywood e.e. Braveheart, Saving Private Ryan, First Knight, 101 Dalmatians a Harry Potter hefyd yn cael eu denu yma. Maent yn dod yma oherwydd y talentau technegol a'r cyfleusterau cynhyrchu toreithiog y gall Prydain eu darparu, ac oherwydd y lleoliadau ysblennydd sydd ar gael mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.

1.3 Ym mha bynnag ran o Brydain y mae gwneuthurwyr ffilmiau, tramor neu gartref, yn chwilio am leoliadau, criwiau a chyfleusterau, fe ddônt o hyd i Gomisiwn Ffilm lleol sy'n barod ac yn awyddus i helpu. Â chefnogaeth awdurdodau lleol craff ac asiantaethau menter a datblygiad, mae Comisiynau Ffilm yn ceisio denu cynhyrchiad i ardal a hwyluso'r gwaith saethu yn lleol. Mae presenoldeb Comisiwn yn sicrwydd mawr i unrhyw gynhyrchydd prysur sy'n chwilio am ffordd o leihau pwysau'r broses gynhyrchu.

1.4 Mae cynhyrchu ar gyfer ffilm a theledu yn fusnes byd-eang ac mae Prydain yn cystadlu â'r byd i gyd. Mae'r diwydiant yn werth dros £3 biliwn y flwyddyn yn y DU yn unig ac yn cynnig gwaith i filoedd o unigolion. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf mae'r Comisiynau Ffilm wedi sefydlu eu hunain fel rhan hanfodol o fframwaith cynhyrchu Prydain. Cydnabuwyd hyn yn adroddiad y Llywodraeth, 'A Bigger Picture', trwy sicrhau cefnogaeth genedlaethol i'r rhwydwaith o

Gomisiynau Ffilm. Rhoddwyd sylw i weithgareddau Comisiynau Ffilm yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 16eg Mai 2000 yn y drafodaeth ar y diwydiant Ffilm a oedd yn cynnwys y gwelliant isod: ***Mae Gwelliant 6 'yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod y tri Chomisiwn Ffilm rhanbarthol sydd yng Nghymru yn dal i gael eu hariannu'.***

***Gwelliant 8: 'Cydnabod rôl bwysig y tri Chomisiwn Ffilm wrth hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer cynhyrchu ffilmiau'.***

## 2. CEFNDIR COMISIYNAU FFILM

2.1 Sefydlwyd un o'r Comisiynau Ffilm cyntaf yn Efrog Newydd yn fuan ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Roedd cymaint o fynd ar gynhyrchu ffilmiau ar ôl y rhyfel, a chymaint o griwiau'n gweithio o amgylch y ddinas, fel bod y Maer wedi gorfod sefydlu swyddfa arbennig i reoli gweithgareddau gwneud ffilmiau a dosbarthu trwyddedau. Sylweddolwyd yn fuan bod ffilm nodwedd a oedd yn cael ei saethu ar leoliad yn dod â chyfran sylweddol o'i chyllideb gyda hi, a dechreuwyd sefydlu Comisiynau Ffilm yn yr Unol Daleithiau er mwyn ceisio denu cynyrchiadau o Hollywood.

2.2 Mae Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Ffilm (AFCI), sydd â thros 300 o aelodau drwy'r byd, wedi amcangyfrif y gall hyd at un rhan o dair o gyllideb ffilm nodwedd gael ei wario ar leoliad. Gyda chyllidebau llawer o ffilmiau nodwedd Hollywood bellach dros $100 miliwn, dechreuodd y cysyniad o Gomisiynau Ffilm ymledu drwy'r byd.

2.3 Mae Rhwydwaith y Deyrnas Unedig wedi datblygu'n gyflym. Yn 1991 dim ond chwe swyddfa ffilmiau oedd wedi eu sefydlu, ac roedd **Cyngor Gwynedd** yn un ohonynt, ond mae'r momentwm a arweiniodd at sefydlu Comisiwn Ffilm Prydain wedi cynyddu'r nifer i 25 o Gomisiynau rhanbarthol a Swyddfeydd Ffilm ar gyfer gwahanol ardaloedd, trwy'r DU.

2.4 Mae gwledydd Ewropeaidd eraill wedi sefydlu a darparu adnoddau sylweddol i'w Comisiynau eu hunain: mae gan Ffrainc bellach rwydwaith i gystadlu â'r Deyrnas Unedig ac mae'r Rhwydwaith Comisiynau Ffilm Ewropeaidd yn cynyddu'n fisol. Mae gwledydd Dwyrain Ewrop – sy'n amlygu eu hunain fel rhai sy'n cynnig costau cynhyrchu is – yn sefydlu Comisiynau Ffilm, ac mae Iwerddon, un o'r prif gystadleuwyr gyda'i chymhellion ariannol Adran 35, hefyd wedi dilyn y trywydd.

2.5 Mae’n bwysig bod Comisiynau Ffilm yn y DU yn cael digon o adnoddau, yn enwedig gan eu bod yn wynebu’r fath gystadleuaeth o bob cwr o’r byd. Rhaid gwella gwasanaethau’n gyson er mwyn sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn dal i fod ar y blaen ac yn llwyddo i ddenu cynyrchiadau ffilm.

2.6 Er bod Comisiwn Ffilm Prydain wedi bod yn ymgyrchu i sefydlu Comisiynau Ffilm ar gyfer pob rhan o’r Deyrnas Unedig, nid rhywbeth sy’n cael ei orfodi o’r brig i lawr yw hyn. Mae’r gwaith o sefydlu Comisiynau wedi ei sbarduno a’i ariannu ar lefel ranbarthol neu leol, gan mai dyna lle mae’r manteision uniongyrchol i’w gweld fwyaf:

- *Gwariant gan gwmnïau cynhyrchu ar lety, lleoliadau, llogi criwiau lleol, gwasanaethau a chyfleusterau;*
- *Cyflogaeth a chyfleoedd eraill sy’n dod i mewn i ardal gyda chynyrchiadau;*
- *Cynyddu ymwybyddiaeth o ardal yn enwedig trwy dwristiaeth pan fo lleoliadau unigol neu ardal benodol yn ymddangos ar sgrîn.*

## 3. RÔL COMISIWN FFILM

3.1 Y prif beth y mae Comisiwn Ffilm yn ei wneud yw helpu cwmnïau cynhyrchu i gyflawni beth bynnag y maent am ei wneud gan sicrhau cymaint ag sy’n bosib o fudd economaidd i’w hardaloedd. Mae’n berthynas symbolaidd: os yw’n cael ei gwneud yn dda, mae pawb yn cyflawni ei nod.

3.2 Mae’r broses o helpu gwneuthurwr ffilm fel arfer yn dechrau gyda’r gwaith cychwynnol o chwilio am leoliad, a allai gael ei wneud trwy lyfrgell luniau Comisiwn neu trwy ymweliad ag unrhyw leoliad arbennig i dynnu lluniau. Ar gyfer rhywbeth haws, mae’n bosib y bydd angen chwilio am wybodaeth am griwiau neu wasanaethau lleol yng nghronfa ddata’r Comisiwn.

3.3 Yn ystod y cyfnod cyn gwneud cynhyrchiad, mae Comisiwn fel arfer yn cynorthwyo cynhyrchydd gyda threfniadau ar gyfer adnoddau a chysylltiadau lleoliad; llety ar gyfer y criw a swyddfeydd cynhyrchu; gwybodaeth a chysylltiadau lleol; a chyngor cyffredinol ynghylch gweithio yn yr ardal. Fel y mae prosiect yn symud ymlaen i’r cam cynhyrchu, bydd y Comisiwn yn helpu gyda materion fel cau strydoedd, parcio unedau, a datrys problemau cyffredinol, yn ogystal â chysylltu â’r gymuned leol.

3.4 Y ddogfen bwysig arall, y mae’r rhan fwyaf o’r Comisiynau’n ei chynhyrchu, yw canllaw cynhyrchu lleol. Mae’r canllaw wedi ei gynllunio er mwyn darparu

cymaint o wybodaeth leol – technegol a chyffredinol – ag sydd ei angen ar gynhyrchwr, ac mae’n ffynhonnell werthfawr iawn ar gyfer enwau pobl i gysylltu â hwy a rhifau ffôn, gan gynnwys rhestrau cynhwysfawr o gyfleusterau, cwmnïau a chriwiau.

3.5 Mae’r rhan fwyaf o waith y Comisiwn Ffilm yn waith cysylltu ar gyfer ffilmiau – rhennir y gweddill rhwng marchnata a chodi arian. Swm y cyllid sydd ar gael sy’n pennu faint o waith y gall Comisiwn ei wneud er mwyn hyrwyddo’i ardal. Cyhoeddi taflenni lleoliadau a chylchlythyrau, anfon llythyrau a mynychu gwyliau a sioeau masnach yw’r dulliau hyrwyddo arferol. Yma yng Nghymru rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â SGRIN a Chomisiwn Ffilm Prydain er mwyn marchnata dramor.

3.6 Nid yw’r gwaith marchnata’n dod i ben gyda chynhyrchu – yn aml iawn bydd Comisiwn yn gwneud gwaith rhagweithiol gyda’i ddosbarthwyr a’i bartneriaid ariannu ei hun er mwyn cael mwy o werth o’r ffilm yn ystod y cyfnod y bydd yn cael ei rhyddhau yn y sinema ac ar ôl hynny.

**4. Y DYFODOL**

1. Daeth yn amlwg ein bod ni yma yng Nghymru’n wynebu sawl her yn dilyn cyhoeddi ‘A Bigger Picture’ (adolygiad cynhwysfawr y Llywodraeth o’r polisi ffilm cenedlaethol) a’r gwaith dilynol o sefydlu’r Cyngor Ffilm ynghyd â chreu Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol yn Lloegr.
2. Roedd ‘A Bigger Picture’ yn cydnabod gwerth Comisiynau Ffilm, ac yn nodi y byddai’r Llywodraeth "yn sicrhau rôl a chyllid Comisiynau Ffilm rhanbarthol yn y dyfodol". Ond mae bodolaeth y rhan fwyaf o’r Comisiynau dan fygythiad o hyd oherwydd prinder arian, a’r ffaith nad ydynt yn cael eu hariannu’n gyson. Rhaid i’r ffynonellau lleol, sydd dan bwysau mawr yn barod, gael eu hategu – neu o leiaf eu gwarantu – ar lefel genedlaethol.
3. Mae arian anghyson ac annigonol bob amser wedi bod yn broblem o safbwynt ariannu’r Comisiwn Ffilm yng Nghymru. Rydym wedi bod yn ffodus yn y gorffennol i gael cymorth gan Gronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop ar ffurf arian cyfatebol i’n cyllid lleol. Yn anffodus nid yw Comisiynau Ffilm wedi gallu elwa eto o’r rhaglen Ewropeaidd Amcan Un.
4. O ganlyniad i’r holl ddatblygiadau hyn gofynnodd y tri Chomisiwn Ffilm i Newidium wneud adolygiad o’u gweithgareddau a gwir werth eu gwaith i economi ranbarthol a chenedlaethol Cymru. Cyflwynwyd yr astudiaeth hon i’r Cynulliad Cenedlaethol yn Rhagfyr 2000, gyda chais am gymorth ariannol.
5. Gofynnodd y Cynulliad i’r Awdurdod Datblygu edrych ar ffyrdd o osod y

Comisiynau Ffilm ar sylfaen ariannol gadarnach a mwy strwythuredig. Y pwnc arall yr oedd angen ei drafod a'i ddatrys oedd perthynas y Comisiynau gyda SGRIN, Asiantaeth Datblygu'r Cyfryngau yng Nghymru.

6. Cytunwyd yn ystod y broses ymgynghorol i gael un Comisiwn Ffilm ar gyfer Cymru, dan yr enw "Comisiwn Sgrin Cymru". Byddai gan Gomisiwn Sgrin Cymru 4 swyddfa ranbarthol i adlewyrchu'r 4 fforwm economaidd rhanbarthol, a byddai rôl gydgysylltu ganolog yn cael ei chyflawni gan Gydgysylltydd/Comisiynydd cenedlaethol a fyddai'n cael ei gyflogi gan SGRIN.
7. Mae'r Awdurdod Datblygu wedi rhyddhau arian newydd fel arian punt am bob punt a gyfrennir gan bartneriaid rhanbarthol ynghyd â ffynhonnell ariannol newydd i alluogi SGRIN i gyflawni'r rôl gydgysylltu a marchnata genedlaethol. Bydd y dull newydd hwn o ymgymryd â gwaith y Comisiwn Ffilm yn cael ei gyhoeddi a'i weithredu cyn bo hir.

***Gan fod hwn yn gynllun newydd nid wyf wedi rhoi gormod o fanylion ond byddwn yn fwy na pharod i ateb unrhyw gwestiynau yn ystod ein sesiwn.***